Gwybodaeth bwysig

Darllenwch y daflen hon – mae'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'ch cyfrif ynni, gan gynnwys ble i gael cyngor diduedd.

ScottishPower

Symud cartref?

Mae'n rhwydd symud cartref gyda ScottishPower. Cwblhewch y broses ar-lein mewn ychydig o gamau syml yn **scottishpower.co.uk/moving-home**. Bydd arnoch angen eich dyddiadau symud a'ch darlleniadau mesurydd, yna byddwn ni'n gwneud popeth arall. Os oes gennych fesurydd Rhagdalu neu os nad oes gennych gyfrif ar-lein, cyswllt ni yn **scottishpower.co.uk/getintouch**. Os byddwch yn cysylltu â ni, bydd arnoch angen y wybodaeth ganlynol wrth law:

- Y dyddiad pan na fyddwch yn gyfreithiol gyfrifol am yr eiddo mwyach (hy. y dyddiad gwerthu/dyddiad eich cytundeb tenantiaeth)
- Darlleniadau mesurydd ar gyfer eich hen gartref a'ch cartref newydd ar y dyddiad hwn
- Eich cyfeiriad newydd/anfon ymlaen
- Manylion cyswllt ar gyfer y landlord/yr asiant gosod (os yw'n berthnasol)
- Enw'r preswyliwr newydd yn eich hen gyfeiriad (os ydych yn gwybod)
- Manylion eich cerdyn debyd neu gredyd i dalu eich bil olaf os ydych yn symud allan o'ch eiddo

Gallwch ddefnyddio ein rhestr wirio newid cyfeiriad i wneud yn siŵr nad ydych yn anghofio unrhyw beth.

Rhywbeth yn bod?

Mae ein Tîm Gofal Cwsmeriaid yma i helpu. Os oes rhywbeth wedi mynd o chwith, rhowch wybod i ni – byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i'w unioni. Cysylltwch â ni ar **0345 270 0700** neu ymwelwch â **scottishpower.co.uk/getintouch** i sgwrsio. Os nad yw'ch cwyn yn cael ei datrys o fewn 8 wythnos, neu os derbyniwch chi ein llythyr Cynnig Terfynol, fe allech gyflwyno'ch achos i'r Ombwdsmon Ynni. Mae'r Ombwdsmon yn gwbl annibynnol ac mae ei wasanaethau ar gael i'w defnyddio am ddim. Os byddwch yn cytuno â'i benderfyniad, mae'n rhaid i ni weithredu ar yr hyn y mae'n ei ddweud. Fe allai hyn olygu bod rhaid i ni ymddiheuro, esbonio beth sydd wedi mynd o chwith, cywiro'r broblem neu roi dyfarniad ariannol i chi. Fodd bynnag, does dim rhaid i chi dderbyn ei benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon ar **0330 440 1624**, trwy anfon neges e-bost at **enquiry@energyombudsman.org** neu drwy ymweld ag **energyombudsman.org**

Cyngor ar Bopeth ac Advice Direct Scotland

Gallwch gael cymorth os ydych yn cael trafferth talu eich bil ynni neu os oes gennych broblem gyda'ch mesurydd. Ffoniwch Gyngor ar Bopeth (Cymru a Lloegr) am ddim ar **0808 223 1133** neu ewch i **citizensadvice.org.uk/energy** neu ffoniwch Advice Direct Scotland am ddim ar **0808 196 8660** neu ewch i **energyadvice.scot**, sef y ffynonellau swyddogol o gyngor a chymorth annibynnol a rhad ac am ddim ar ynni.

Angen cymorth ychwanegol? Ein Gwasanaethau Blaenoriaethol

Rydym eisiau rhoi cymaint o gymorth ag y gallwn i'r cwsmeriaid hynny y mae arnynt ei angen. Mae ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth yn cynnig cymorth i wahanol gwsmeriaid, yn amrywio o'r rhai hynny sydd â salwch cronig neu anableddau i'r rhai hynny y mae eu hamgylchiadau personol wedi newid. O filiau a chyfathrebiadau eraill sydd ar gael mewn fformatau fel print bras a braille, i roi gwybod i'ch cwmni dosbarthu trydan lleol os oes arnoch angen cyflenwad trydan parhaus, gallwn gynnig cymorth a chefnogaeth i'ch helpu i reoli'ch cyfrif yn haws. I gael gwybod pa gymorth a allai fod ar gael i chi trwy ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, ymwelwch â **scottishpower.co.uk/psr**

O ble mae ein hynni'n dod?

Dangosir manylion ein cymysgedd tanwydd isod i'ch helpu i ddeall ffynhonnell y tanwyddau a ddefnyddiwn i gynhyrchu trydan a'u heffaith ar yr amgylchedd.
Rydym wedi'u cymharu â chyfanswm y cymysgedd tanwydd ar gyfer gweddill y Deyrnas Unedig, a hefyd wedi cymharu ein tariffau gwyrdd â'n holl dariffau eraill. Sylwch fod ein holl dariffau gwyrdd domestig yn darparu trydan gwyrdd 100% a gynhyrchir o'n ffermydd gwynt ni yma yn y Deyrnas Unedig.

Fuel Mix Information 2022-2023

Ffynhonnell Ynni	Tariffau ScottishPower		Cyfanswm Cymysgedd Tanwydd ScottishPower (3)	Cymysgedd Tanwydd y DU (4)
	Tariffau Gwyrdd (1)	Pob Tariff arall (2)		
Glo	0%	7%	6%	3%
Nwy	0%	73%	59%	39%
Niwclear	0%	2%	1%	14%
Adnewyddadwy	100%	13%	29%	41%
Tanwyddau eraill	0%	5%	5%	3%
Cyfanswm	100%	100%	100%	100%

(1) Dyma'r cymysgedd tanwydd ar gyfer ein holl gwsmeriaid sydd ar dariffau gwyrdd
(2) Dyma'r cymysgedd tanwydd ar gyfer ein holl gwsmeriaid sydd ar dariffau nad ydynt yn dariffau gwyrdd
(3) Dyma gymysgedd yr holl ynni rydym ni'n ei brynu i'w gyflenwi i'n sylfaen gwsmeriaid gyfan
(4) Dyma gymysgedd tanwydd cyfanswm y trydan a gyflenwyd yn y Deyrnas Unedig

www.gov.uk/government/publications/fuel-mix-disclosure-data-table/fuel-mix-disclosure-data-table

I gael rhagor o wybodaeth am effaith amgylcheddol eich cyflenwad trydan, ewch i **scottishpower.co.uk/fuelmix**

Rheolaeth ar flaen eich bysedd

Gydag ap ScottishPower, gallwch reoli eich cyfrif, cyflwyno darlleniadau mesurydd, gwneud taliadau a mwy. Lawrlwythwch ef o'r App Store neu Google Play

Download on the App Store

GET IT ON Google Play



Gallwch weld esboniad syml o'ch bil yn **scottishpower.co.uk/simplebill** neu gofrestru yn **scottishpower.co.uk/register**

Rydym ni yma i helpu

Ar-lein
scottishpower.co.uk/getintouch

Llythyr
ScottishPower
Gwasanaethau Cwsmeriaid
320 St. Vincent Street
Glasgow
G2 5AD

Gwefan
scottishpower.co.uk

Anawsterau clyw neu leferydd?
Gallwch gysylltu â ni'n rhwydd gan ddefnyddio'r Relay UK.

Ewch i **relayuk.bt.com** i gael rhagor o wybodaeth. Os oes arnoch angen bil mewn print mawr neu Braille, cyswllt ni yn **scottishpower.co.uk/getintouch**

SCP6969 MAR24

ScottishPower